

Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol

Ysgol Gynradd Pont y Gof

ADRODDIAD ADRAN 3



Beth ydi effaith arferion darllen da ar fwynhad a chynnydd disgyblion blynyddoedd 5 a 6?

Manylion cyswllt: bethanprysjones@Gwynedd.llyw.cymru

Cynnwys

1. Trosolwg o'r ymholiad
2. Dysgu o ganlyniad i'r broses ymholi
3. Beth weithiodd yn dda?
4. Beth oedd yn fwy o her?
5. Camau i ddatblygu diwylliant ymholi
6. Gwerthuso a cefnogaeth gan gymheiriad



1.Trosolwg o'r ymholiad

Mae ysgol Pont y Gof ym mhentref Botwnnog ym Mhen Llŷn, Gwynedd a mae o dan Reolaeth Gwirfoddol yr Eglwys yng Nghymru. Mae'r ysgol yn gwasanaethu pentrefi Sarn Mellteyrn, Llaniestyn a Garn Fadryn ac yn darparu ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Cymraeg yw iaith yr ysgol a phrif gyfrwng y dysgu a'r addysgu ond fe addysgir Saesneg yn ffurfiol yng nghyfnod allweddol 2 hefyd.

Daw oddeutu 87% o'r disgyblion o gartrefi ble siaredir Cymraeg ac ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir ethnig lleiafrifol. Derbynnir blant meithrin yn llawn amser ym mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn bedair oed.

99 o ddisgyblion sydd ar y gofrestr a mae oddeutu 8% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. 16% o'r disgyblion sydd ar gofrestr anghenion ychwanegol yr ysgol a mae 2% o'r disgyblion yng ngofal yr Awdurdod.

Beth ydi effaith arferion darllen da ar fwynhad a chynnydd disgyblion blynyddoedd 5 a 6?

NOD CYFFREDINOL: Datblygu amgylchedd darllen y dosbarth i hybu mwynhad a chynnydd.

Yn dilyn y cyfnod clo daeth i'r amlwg bod disgyblion yn cael anhawster i ddarllen, i fwynhau ac i siarad am ddarllen. Penderfynwyd ynghyd a'r plant i lunio ymholiad a fyddai'n addas ar gyfer datblygu sgiliau darllen y disgyblion.

Prosiect darllen ar gyfer disgyblion blynyddoedd 5 a 6 a gwblhawyd gan Bont y Gof eleni.

2. Dysgu o ganlyniad i'r broses ymholi

a) Adroddiad Asesu a Safonau

Cyn y cyfnod clo roedd nifer o systemau addysgu wedi cael eu gweithredu yn nosbarth blynyddoedd 5 a 6 a oedd yn arwain at gynnydd ym mrwdfrydedd y disgyblion i ddarllen. Roedd cyfleoedd i 'r dosbarth ddarllen i bwrpas a thasgau a gweithgareddau heriol yn cael eu cynllunio er mwyn gwneud y plant yn well darllenwyr. Roedd adroddiad safonau darllen blynyddoedd 5 a 6 yn dda. Ar ol y cyfnod clo gwelwyd llithriad ym mrwdfrydedd y disgyblion tuag at ddarllen a roedd y canlyniadau 'sgor darllen' y disgyblion a brofwyd yn is. Gosodwyd darllen fel is flaenoriaeth yng nghyfnod allweddol 2.

b) Dadansoddi holiaduron

Dadansoddwyd holiaduron gan y disgyblion a oedd yn canfod barn ynglyn a mwynhad ac agwedd plant tuag at ddarllen. Roedd y canfyddiadau yn amlwg. Roedd dros 50% o ddisgyblion yn teimlo nad oedd pwrpas i ddarllen a nad oeddynt yn mwynhau darllen o gwbl yn y dosbarth:

"Dwi'm yn gweld pwynt darllen, dydi darllen ddim yn fy helpu o gwbl."

"Does dim pwrpas darllen llyfr, mae bob dim ar y we."

"Mae darllen yn y dosbarth yn ddiflas. Da ni'n g'neud yr un peth bob diwrnod."

Gyda'r disgyblion a chefnogaeth y rhieni fe osodwyd camau gweithredu pendant ar gyfer y flwyddyn.

c) Llais y Pletyn a llais y rhieni

Ar ddechrau'r prosiect eglurwyd i'r disgyblion bod y dosbarth am fod yn rhan o waith ymchwil difyr. Y disgyblion eu hunain a luniodd y cwestiwn ac o holi barn y rhieni ar lafar mewn noson rieni roedd y rhan fwyaf yn cytuno bod annog plant i fwynhau ac i siarad am ddarllen yn syniad da.

4. Cynllun gweithredu

Lluniwyd model rhesymeg gyda'r disgyblion a'i gyflwyno i'r llywodraethwyr mewn cyfarfod.

5. Gwaith ymchwil ac ymholi

Darllenwyd nifer o ddogfennau ac adroddiadau o arfeion da, rhai yng nghwmni'r digyblion er mwyn bachu ar syniadau gwreiddiol. Daethpwyd i'r canlyniad ein bod ni fel athrawon a'r disgyblion eisiau yr un nod. MAE DARLLEN YN HWYL, TANIO'CH DYCHYMYG, GYFLE I CHI DDYSGU A DIANC, HELPU I DYFU YN FEDDYLIOL.

3. Beth weithiodd yn dda?

- ✓ Ysgrifennu cynllun newydd – Darllen gyda'ch plentyn – arweiniad i rieni
- ✓ Cyfarwyddo'r holl staff yr ysgol gyda gofynion y cwricwlwm newydd
- ✓ Defnyddio'r camau cynnydd er mwyn asesu cynnydd y disgyblion
- ✓ Gadael i'r disgyblion cynllunio'r gweithgareddau a dewis beth hoffen nhw ddarllen
- ✓ Siarad am gynnwys y llyfrau. Roedd hyn yn ffordd wych o drafod ofnau, pryderon neu i helpu gydag emosiynau disgyblion blynyddoedd 5 a 6
- ✓ Buddsodi mewn cyfresi newydd ,gemau addysgol, appiau ac 'audio books'
- ✓ Neilltuo amser i ddarllen – darllen go iawn, tawel mewn par neu grwp.
- ✓ Annog y disgyblion i ddewis yn ddoeth – ddim yn rhy anodd nac yn rhy hawdd
- ✓ Ffilmio adolygiadau er mwyn annog eraill i ddarllen y llyfr
- ✓ Cyflwyno llyfrau newydd yn y gwasanaeth
- ✓ Cynnal diwrnod cyfnewid llyfrau
- ✓ Dathlu diwrnod y llyfr
- ✓ Sefydlu clwb darllen
- ✓ Beirniadu nofelau cystadleuaeth - Tir Na Nog
- ✓ Sefydlu caffi darllen
- ✓ Ymaelodi gyda'r llyfrgell leol
- ✓ Gorchuddio llyfrau gyda phapur plaen gydag neges yn hybu eraill i ddarllen y llyfr
- ✓ Cyd-weithio gyda'r rhieni drwy addasu'r cofnodion darllen
- ✓ Ail-strwythuro llyfrgell yr ysgol

4. Beth oedd yn fwy o her?


- ✓ Cyfyngiadau Covid yn ystod y flwyddyn
- ✓ Amser i gwblhau'r a gweithredu'r holl syniadau
- ✓ Prinder staff a disgyblion oherwydd salwch


Datblygu Model Rhesymeg

Beth ydi effaith arferion dysgu **DARLLEN** da ar fwynhad a chynnydd disgyblion blynyddoedd 5 a 6?

NOD CYFFREDINOL: Datblygu amgylchedd darllen y dosbarth i hybu mwynhad a chynnydd.

HER	MEWNBWN	GWEITHREDU	ALLBWN	DEILLIANT/EFFAITH
<ul style="list-style-type: none"> Adroddiad craffu yn adnabod yr angen i gynnig mwy o gyfleoedd am dasgau darllen amrywiol Sicrhau fod cofnodion rheolaidd yn cael eu cadw i dracio cynnydd darllen y disgyblion Sicrhau fod cyswllt gadarn rhwng cofnodion darllen cartref y dysgwyr gyda'r ysgol Cynnwys gweithgareddau darllen fel rhan annatod o sesiynau llythrennedd y dysgwyr Defnyddio INCERTS fel arf gynllunio yn ogystal ac arf tracio ac asesu Annog y dysgwyr i 	<ul style="list-style-type: none"> Amser di-gyswllt i gynllunio Awdit o ansawdd adborth darllen a'i effaith ar hyn o bryd Holiadur i weld beth ydi barn disgyblion am ddarllen yn y dosbarth Gwneud defnydd o dystiolaeth Shirley Clarke a John Hattie ar effaith bositif adborth effeithiol. Holiadur i weld beth yw barn y rhieni am gofnodion darllen y dosbarth a darllen yn y dosbarth yn gyffredinol Hyfforddi dysgwyr i fod yn gallu rhoi adborth effeithiol am destunau darllen Dod o hyd i enghreifftiau o arferion darllen da drwy waith ymchwil Sicrhau fod cyfnodau darllen yn cael eu cynllunio Sicrhau fod profion darllen yn cael eu dadansoddi a bod targedau yn cael eu llunio ar gyfer y dysgwyr Sicrhau cyfnodau hyfforddi Cyfweliad/ holiadur ar ddiwedd y cyfnod i ganfod barn/ dealltwriaeth y dysgwyr 	<ol style="list-style-type: none"> Trafod ac esbonio pwysigrwydd darllen i ddisgwyr yn y dosbarth ac yn byd 'go iawn' <u>Ymgwyfarwyddo'r staff gyda lefelau a gofynion sgiliau darllen</u> <u>Egluro i rieni beth yw prosiect ymchwil y dosbarth</u> Cynllunio holiaduron <u>Dadansoddi holiaduron</u> <u>Gwahodd awduron lleol er mwyn annog brwdfrydedd</u> Creu taflen cynllunio darllen wythnosol Rhannu arferion darllen da yr ysgol <u>Cynnwys gweithgareddau darllen yng nghynlluniau wythnosol y dosbarth</u> Cynnwys darllen ar wal llythrennedd y dosbarth (Wal Weithio) Archebu adnoddau amrywiol ar gyfer y dosbarth e.e. First News, Cip .. Modelu adolygiadau llenyddol Cynnwys 'Bingo Darllen' yn y cofnodion darllen Defnyddio INCERTS wrth gynllunio gweithgareddau wythnosol 	<p><u>Erbyn Nadolig 2021</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Disgyblion yn deall pwrpas a gwerth mewn darllen yn y dosbarth a thu hwnt Rhieni yn deall cefndir yr ymholiad Dysgwyr wedi llenwi holiadur – barn am ddarllen Archebu adnoddau Defnyddio'r wal llythrennedd fel arf i gyfoethog'r dysgu yn y sesiynau darllen Gwahodd awdur lleol Cynnwys gweithgareddau darllen yng nghynlluniau gwaith y dosbarth Defnyddio INCERTS i dracio ac asesu Ail-strwythuro'r llyfrgell Profion darllen <p><u>Erbyn Pasg, 2022</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Ethos y dosbarth yn newid Cynnwys gweithgareddau darllen yn y cynlluniau gwaith wythnosol Sefydlu clwb darllen/cyfnod llyfrau Parhau gyda rhai targedau o dymor yr Hydref 	<p><u>Gweithredu</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Dealltwriaeth o'r angen i fedru darllen yn ein bywyd bob dydd Gallu dysgwyr blynyddoedd 5 a 6 i drafod amrywiaeth o destunau Dysgwyr yn mwynhau tasgau darllen y dosbarth drwy gyd-gynllunio a gwerthuso Gwella gwaith – gweld yr angen i ddal ati er mwyn llwyddo <p><u>Mesur effaith</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Dadansoddi holiaduron a chyfweliadau gyda'r disgyblion Mwynhad y disgyblion yn y sesiynau darllen Agwedd disgyblion tuag at heriau darllen Profion Darllen yn dangos cynnydd Tystiolaeth o weithgareddau ac amrywiaeth o sgiliau darllen y dysgwyr ar lawr y dosbarth <p><u>Udadaenu a chynnal</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Cyfiwyno darganfyddiadau i'r Corff Llywodraethol Cyfiwyno darganfyddiadau i

<p>gymeryd rôl am eu dysgu eu hunain</p> <ul style="list-style-type: none"> Buddsoddi mewn adnoddau pwrpasol ar gyfer llyfrgell yr ysgol Cyd-gynllunio gweithgareddau darllen gyda'r dysgwyr a fydd yn ymateb i'r 4 diben (Cwricwlwm i Gymru) 	<p>am ddarllen yn y dosbarth</p> <ul style="list-style-type: none"> Hyfforddi staff ar roi adborth effeithiol ar lawr y dosbarth Edrych ar glipiau/ ymchwiliadau darllen effeithiol o systemau sydd wedi gweithio mewn ysgolion tebyg Mynychu hyfforddiant Rheadru canfyddiadau gyda gweddill yr ysgol Defnyddio dulliau ac arferion Shirley Clark/John Hattie o hunan asesu a herio eu hunain i gyrraedd eu llawn potensial 	<p>15. Defnyddio'r 4 Diben gyda'r dysgwyr i gyd-gynllunio gweithgareddau darllen i hybu mwynhad</p> <p>16. Hyfforddi staff gydag egwyddorion dysgu Shirley Clark a John Hattie</p> <p>17. Rhedeg caffi wythnosol ar gyfer darllen ar y rhyngwrwyd</p>	<p><u>Erbyn yr Haf</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Disgyblion yn hyderus ac yn mwynhau darllen Holiadur/ Cyfweiliad gyda'r dysgwyr i weld beth oedd effaith y prosiect Tracio cynnydd y dysgwyr yn ystod y fiwyddyn. 	<p>weddill yr ysgol</p>
<p><u>Tybiaethau/ Ymchwil</u></p> <ul style="list-style-type: none"> ✓ OXFORD SCHOOL IMPROVEMENT, Building on Outstanding Reading School (2019) ✓ HATTIE J, CLARKE S, Visible Learning Feedback (2008) ✓ ESTYN, Datblygu Arferion Darllen Da (2019) ✓ LANGLOIS L, Children's Engagement in Reading for Pleasure: Developing a Reading ENVIRONMENT to promote enjoyment in reading (2018) 	<p><u>Cysylltiadau â blaenoriaethau GwE/cenedlaethol</u></p> <ul style="list-style-type: none"> ✓ 4 diben ✓ Cwricwlwm i Gymru 2022 ✓ Creu dysgwyr hyderus, annibynnol ✓ Datblygu sgiliau trosglwyddadwy yn eu taith addysgol ac ar gyfer byd gwaith 		<p><u>Byggythiadau/dylanwadau o'r tu allan</u></p> <ul style="list-style-type: none"> ✓ Mesur cynnydd yn feintiol ✓ Angen ail sefydlu diddordeb a mwynhad mewn darllen ar ôl colli cyfnod yn yr ysgol ✓ Dysgwyr yn gweld darllen yn ddi-bwrpas ac ddim yn mwynhau y sesiynau darllen yn y dosbarth ✓ Disgyblion – di-hyder wrth ddarllen 	



“Os wyt ti am fynd i unrhyw le mewn bywyd, mae rhaid i ti ddarllen llawer o lyfrau.”

Roald Dahl


J.K. Rowling

“Dwi wir yn credu y gall rhywbeth hudol ac arbennig ddigwydd wrth i ti ddarllen llyfr da.”



5. Camau i ddatblygu diwylliant ymholi

Dyma'r camau gweithredu nesaf ar gyfer datblygu gwaith ymholi ym Mont y Gof:



Cynllunio ar gyfer holl blant yr ysgol i fod yn hapus, annibynnol ac hyderus er mwyn gweithredu'r Cwricwlwm Newydd yn ei gyfanrwydd

Mynychu hyfforddiant a rheadru'r wybodaeth a'r arferion gyda'r ysgol.

Datblygu partneriaeth gydag ysgolion eraill.

Llunio holiaduron ar gyfer staff, disgyblion, rhieni a'r llywodraethwyr er mwyn dod i farn.

Neillto a buddsoddi mewn amser i weithredu'r prosiect heb ofn rhoi cam i rhywbeth arall.

Gwrando ar 'lais y plentyn' a chyd-gynllunio i wynebu'r her.

6.Gwerthuso

Yn sicr, darganfyddwyd fod cynllunio ystod o weithgareddau gyda'r dysgyblion eu hunain wedi bod yn hynod werthfawr. Cafodd y gwaith ymchwil effaith gadarnhaol ar fwynhad y disgyblion a gwelwyd gwelliant mewn safon y darllen mewn amser byr iawn. Er i Covid unwaith eto gael effaith ar yr ymholiad, gwelwyd cynnydd yn niddordeb y disgyblion, yn arbennig ymysg y bechgyn ohewydd inni fuddsoddi llawer mwy mewn appiau ac 'audio books'. Yn amlwg mae defnyddio technoleg fodern o fudd mawr i ddenu mwy o fechgyn i ddarllen. Heb os, bydd angen parhau'r gyda'r gwaith ymchwil y flwyddyn nesaf. Y bwriad fydd rhannu'r holl arferion da gyda'r ysgol gyfan.

"Dwi'n mwynhau darllen yn fwy rwan a mae'r gwersi llawer gwell"

"Mae'r clwb darllen wedi rhoi hyder i mi siarad a darllen o flaen eraill."

"Dwi 'di cael fy sbarduno i ddarllen llyfrau na fuaswn i wedi darllen o'r blaen."

"Mae'r audio books yn llawer gwell na llyfr."

"Mae'r llyfrgell yn drefnus ac yn denu sylw."

"Dwi'n hoffi darllen adref."